# CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH COMMUNITY COUNCIL

# RHEOLAU SEFYDLOG - ADOLYGWYD Ebrill 2018

**[ Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog hyn gan y Cyngor yn eu Cyfarfod a gynhaliwyd ar 03/04/2018 ].**

## 1. Y CYNGHORWYR

1.1. Bydd pob Cynghorydd a fydd wedi ei ethol neu gyfethol i Gyngor Cymuned Eglwys Bach (y Cyngor) yn derbyn copi o Gôd Ymddygiad a Rheolau Sefydlog y Cyngor. I gydnabod iddo fo neu hi dderbyn y ddwy ddogfen bydd yn llofnodi ffurflen Datganiad Derbyn Swydd, ac yn gwneud hynny ym mhresenoldeb y Clerc neu Gynghorydd arall.

1.2. Bydd pob Cynghorydd yn cydymffurfio bob amser â'r Côd Ymddygiad wrth ymwneud â gwaith y Cyngor. Ni chaiff unrhyw Gynghorydd ymddwyn mewn modd a fydd yn dwyn gwarth ar y Cyngor, na bod yn annymunol mewn cyfarfodydd nac ychwaith rwystro gwaith y Cyngor.

1.3. Mae'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn nodi pa bryd y bydd gofyn i Gynghorydd ddatgan diddordeb personol neu aflesol mewn eitem sydd i'w thrafod mewn cyfarfod o'r Cyngor. Mae pob Cynghorydd sydd â diddordeb i ddatgan ei ddiddordeb ynghyd â natur y diddordeb hwnnw ar yr adeg briodol yn y cyfarfod perthnasol, ac i gwblhau a llofnodi ffurflen Datganiad o Ddiddordeb y Cyngor.

## 2. Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

### GYDAG ETHOLWYR

2.1. Nid oes gofyniad yng Nghymru i gynnal Cyfarfod Blynyddol gydag Etholwyr gan y gellir galw cyfarfod o'r fath ar unrhyw adeg.

2.2 Cytunwyd gan Gyngor Cymuned Eglwys Bach i gynnal Cyfarfod gyda'r Etholwyr yn flynyddol a hynny ym mis Mai er mwyn trafod materion sy'n bwysig i'r gymuned.

2.3 Bydd y Cadeirydd sy'n ymddeol (os yw'n bresennol) yn llywio'r cyfarfod yn y modd arferol ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, sef adroddiad o brif weithgareddau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Yna bydd materion sy'n bwysig yng ngolwg yr etholwyr yn cael eu trafod.

### Y CYNGOR

2.4 Os yw'n flwyddyn etholiadol mae'n rhaid cynnal y cyfarfod yn union ar ôl yr etholiad (h.y. o fewn 14 diwrnod). Os nad yn flwyddyn etholiadol mae'r Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar ddyddiad addas ym mis Mai.

2.5 Yn y cyfarfod hwn bydd y Cadeirydd sy'n ymddeol (os yw'n bresennol) yn agor y cyfarfod ac yn ethol Cadeirydd, Is-Gadeirydd, aelodau'r pwyllgorau a chynrychiolwyr ar gyrff eraill. Cyfarfod o'r Cyngor yw hwn.

2.6 Yna, bydd y Cadeirydd newydd yn cymryd y gadair.

## 3. Y CYFARFODYDD

3.1. Mae cyfarfodydd y Cyngor i'w cynnal mewn adeilad priodol gyda mynediad rhwydd iddo. Ystafell Gefn Neuadd Aberconwy, Eglwys Bach yw'r lleoliad ar hyn o bryd.

3.2. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal ar nos Lun cyntaf bob mis (ac eithrio mis Awst), oni bai fod y dydd Llun yn Ŵyl y Banc, a chynhelir y cyfarfod ar y nos Fawrth dilynol neu ddyddiad arall a gytunir gan y Cyngor.
Bydd hysbysiad o'r cyfarfodydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynghorwyr ar ffurf Agenda, Cofnodion a phapurau perthnasol eraill. Bydd yr hysbysiadau i'w hanfon at y Cynghorwyr drwy'r post, drwy e-bost, neu drwy law. Mae'r Agenda a'r papurau cysylltiedig i'w dosbarthu i'r Cynghorwyr o leiaf dridiau cyfan cyn y cyfarfod.

3.3. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r cyhoedd o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfodydd ac ar yr un pryd yn cyhoeddi rhestr o'r materion sydd i'w trafod. Bydd yn gwneud hyn drwy osod hysbyseb yn cynnwys manylion hyn i gyd mewn mannau amlwg. Mae'r hysbyseb i'w chyhoeddi o leiaf dridiau cyfan cyn y cyfarfod.

3.4. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd a'r wasg. Serch hynny, bydd gofyn i'r naill a'r llall ymneilltuo o'r cyfarfod pan fydd trafodaethau ar faterion y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn rhai cyfrinachol.

3.5. Fe gaiff aelod o'r cyhoedd siarad mewn cyfarfod Cyngor pan fydd yn derbyn caniatâd y Cadeirydd i wneud hynny.

3.6. Bydd Agenda'r cyfarfod wedi ei benderfynu gan y Clerc ar y cyd â'r Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd, fel bo'n briodol. Bydd yr Agenda bob amser yn cynnwys eitem lle bydd gofyn i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb personol neu aflesol mewn unrhyw fater ar yr Agenda.

3.7 Ni chaiff y Cyngor ddod i benderfyniad ynghylch unrhyw fater nad ydi o wedi ei gynnwys ar yr Agenda. Pan fydd angen trafod mater brys fe ellir ei drafod, gyda chaniatâd y Cadeirydd.

3.8. Cadeirydd y Cyngor fydd yn llywio'r cyfarfod. Pan na fydd y Cadeirydd yn bresennol yna'r Is-gadeirydd fydd yn llywio'r cyfarfod. Pan na fydd y naill na'r llall yn bresennol yna eitem gyntaf busnes y cyfarfod fydd ethol Cynghorydd i gadeirio'r cyfarfod; bydd y Cynghorydd hwnnw'n ymgymryd â holl gyfrifoldebau'r Cadeirydd yn ystod y cyfarfod hwnnw.

3.9. Cworwm (y nifer lleiaf o Gynghorwyr a ganiateir i drafod Agenda unrhyw gyfarfod). Bydd cworwm pob cyfarfod yn draean o nifer cyfanswm y Cynghorwyr. Ni fydd cworwm fyth yn llai na 3 aelod. Os nad oes cworwm does dim trafodaeth i fod ar unrhyw fater, a bydd yn rhaid trefnu ailgynnull ar amser cyfleus arall.

3.10. Os, yn ystod cyfarfod, bydd nifer y Cynghorwyr yn disgyn o dan y nifer sy'n angenrheidiol i ffurfio cworwm, yna bydd rhaid gohirio'r cyfarfod a thrafod gweddill y materion yn y cyfarfod nesaf.

3.11. Bydd y Cynghorwyr yn pleidleisio drwy godi llaw oni fydd mwyafrif y Cynghorwyr yn dymuno cynnal pleidlais gudd. Dim ond enwau cynigydd ac eilydd pob cynnig sydd i'w gofnodi oni fydd Cynghorydd yn gwneud cais am gofnodi nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn. Fe all Cynghorydd hefyd ofyn i'r Clerc gofnodi sut y pleidleisiodd pob Cynghorydd, a bod y cofnod hwnnw'n cynnwys y rhai a ataliodd eu pleidlais. Mae unrhyw gais o'r math hwn i'w wneud cyn symud i'r eitem nesaf.

3.12. Pan fydd y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal bydd y Cadeirydd yn bwrw pleidlais ychwanegol (pleidlais fwrw) i benderfynu'r mater.

3.13. Bydd y Clerc, neu os ydi'r Clerc yn absennol un a enwebwyd gan y Cyngor, yn cadw'r cofnodion. Bydd y cofnodion y bydd y Clerc yn eu dosbarthu cyn pob cyfarfod yn gofnodion drafft hyd nes eu bod wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn a'u llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod.

3.14. Os oes gan Gynghorydd ddiddordeb personol mewn cais mae ganddo hawl i gyflwyno datganiad ynghylch y cais, ond bydd yn rhaid iddo ymneilltuo o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais hwnnw.

## 4. <u>CYNGHORYDD YN METHU CYFARFODYDD</u>

4.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi y dylid ystyried unrhyw Gynghorydd a fydd wedi methu chwe mis yn olynol o gyfarfodydd y Cyngor, fel petai wedi ymddiswyddo o'r Cyngor - oni fydd ei ddiffyg presenoldeb wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn diwedd y chwe mis.

4.2 Os bydd diffyg presenoldeb am 3 mis dilynol, bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr at y Cynghorydd dan sylw i'w atgoffa o'i ddyletswyddau i'w Gymuned.

4.3 Pan gyfyd achos fel y nodir uchod yn 4.1, y mae'r Clerc i ysgrifennu llythyr ffurfiol at y Cynghorydd dan sylw yn ei hysbysu o'r sefyllfa ac yn ei wahodd i gynnig sylwadau cyn i'r Cyngor gadarnhau bod ei sedd yn wag.

4.4 Os na fydd y Clerc, ar ôl dilyn y drefn a nodir uchod yn 4.3, yn derbyn unrhyw wybodaeth oddi wrth y Cynghorydd a fyddai'n darbwyllo'r Cyngor i weithredu'n wahanol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'n ffurfiol bod y sedd yn wag. Bydd y Clerc wedyn yn hysbysu Swyddog Etholiadol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bod lle gwag ar y Cyngor a fydd angen ei lenwi drwy etholiad neu drwy gyfethol aelod newydd.

## 5. CYLLID – Y SWYDDOG Â CHYFRIFOLDEB CYLLIDOL

Mae swyddogaeth y Swyddog â Chyfrifoldeb Cyllidol (y Swyddog Cyllid) yn swyddogaeth statudol. Bydd Clerc y Cyngor yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon ynghyd â'r gwaith o reoli materion ariannol y Cyngor, yn unol â'r Arfer a'r Gweithdrefnau Rheoli Cyllid priodol.

Gweler Rheoliadau Ariannol y Cyngor am fanylion gweithredu pellach.

## 6. DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Bydd y Clerc yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf drwy alluogi'r cyhoedd i weld dogfennau priodol ar adegau ymarferol. Os oes ansicrwydd ynghylch unrhyw agwedd o'r Ddeddf neu ei weithrediad, bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyngor.

## 7. CLERC Y CYNGOR

7.1 Bydd y Cyngor yn apwyntio ac yn cyflogi Clerc i weithio ar ei ran. Os ydi'r Clerc yn Gynghorydd bydd yn gweithredu'n ddi-dâl.

7.2 Bydd y Clerc yn gweithredu fel Swyddog Cyllid a Swyddog Cyfrifol y Cyngor. Bydd yn derbyn Datganiadau Derbyn swydd a ffurflenni datgan diddordeb y Cynghorwyr, yn llofnodi dogfennau ar ran y Cyngor, yn cyhoeddi Agendâu ac yn hysbysebu'r cyfarfodydd, yn derbyn a dosbarthu cynlluniau a dogfennau ar ran y Cyngor, ac yn hysbysu'r banc o unrhyw newidiadau i fandadau cyfrifon.

7.3 Gan ei fod wedi ei gyflogi gan y Cyngor mae'r Clerc wedi ei warchod gan ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyflogaeth, gwahaniaethu yn y lle gwaith, telerau diswyddo, diswyddo annheg a materion cyffelyb. Bydd gan y Clerc gytundeb cyflogaeth yn nodi amodau a thelerau ei gyf/chyflogaeth ac a fydd wedi ei weithredu'n effeithiol gan Gadeirydd y Cyngor neu Gynghorydd yn gweithredu gydag awdurdod y Cyngor.

## 8. CYFARFODYDD BRYS A MATERION ARBENNIG

Pan fydd angen gweithredu ar frys oherwydd amgylchiadau eithriadol, mae gan y Clerc, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr awdurdod i gynnull cyfarfod brys neu gyfarfod materion arbennig er mwyn i'r Cyngor allu delio'n effeithiol â'r mater.

## 9. RHEOLAU SEFYDLOG

9.1 Mae'r Rheolau Sefydlog hyn i'w hadolygu'n flynyddol gan y Clerc a'r Cadeirydd. Bydd yn rhaid i bob newid neu welliant fod wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn ei weithredu.

9.2 Yn ystod cyfarfodydd y Cyngor, bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch dehongliad y Rheolau Sefydlog yn derfynol. Os oes amheuaeth ynghylch y dehongliad, bydd y Cyngor yn gofyn am gyngor oddi wrth Adran Gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

9.3 Fe all y Cyngor benderfynu dirymu Rheol Sefydlog os oes angen hynny i'r Cyngor allu dwyn y maen i'r wal. Mae pob penderfyniad o'r fath i'w nodi yn y cofnodion, i'w ystyried y ddwys cyn ei weithredu ac i'w gyfyngu i gyfnod penodol o amser.

[ ........................................................... **Cadeirydd** ]